

Y Gymraeg a'r economi ymweld gynaliadwy: Astudiaeth beilot Bethesda  
Prys, Cynog; Hodges, Rhian; Bonner, Elen

Cyhoeddwyd: 01/09/2023

PDF y cyhoeddwr, a elwir hefyd yn Fersiwn o'r cofnod

[Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication](#)

*Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):*  
Prys, C., Hodges, R., & Bonner, E. (2023). Y Gymraeg a'r economi ymweld gynaliadwy:  
Astudiaeth beilot Bethesda.

#### **Hawliau Cyffredinol / General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

#### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

# Y Gymraeg a'r economi ymweld gynaliadwy: Astudiaeth beilot Bethesda

---

DR CYNOG PRYS, DR RHIAN HODGES,

ELEN BONNER

PRIFYSGOL BANGOR

A CHYNGOR GWYNEDD

**MEDI 2023**

Cyllidwyd yr astudiaeth beilot drwy Gronfa Sbarduno Prifysgol Bangor

# Tabl Cynnwys

---

1.	Crynodeb Gweithredol	2
2.	Cyflwyniad	3
3.	Cwestiynau Ymchwil	3
4.	Methodoleg	4
5.	Moeseg Ymchwil	4
6.	Themâu Allweddol	5
	Cyfweiliadau	5
	Grwp Ffocws	14
7.	Trafodaeth	18
8.	Casgliadau ac Argymhellion	21
9.	Atodiadau	23

# 1. Crynodeb Gweithredol

---

Yn Chwefror 2023 comisiynwyd Prifysgol Bangor (Prys a Hodges) i gynnal astudiaeth ymchwil, mewn cydweithrediad a Chyngor Gwynedd. Diben y gwaith oedd cynnal astudiaeth beilot, ar raddfa fach, yn archwilio i ddatblygiad cymunedol, economaidd ac ieithyddol yng nghyd-destun dyfarniad diweddar y bröydd llechi fel Safle Treftadaeth y Byd. Astudir un gymuned, sef Bethesda, er mwyn cael mewnwelediad cychwynnol i rai o'r heriau, a'r cyfleoedd, a all godi yn sgil y dynodiad ar gynladwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled strwythuredig ansoddol dwys (7 cyfweiliad) gyda pherchnogion busnes ac arweinwyr mentrau cymdeithasol neu aelodau o fudiadau cymunedol amrywiol a oedd wedi ei leoli ym Methesda a'i chyffiniau. Yn ogystal, cynhaliwyd un grŵp ffocws ar-lein gydag aelodau'r cyhoedd ym Methesda (6 person). Gan fod maint y sampl yn gymharol fach (13 cyfranogwr), rhaid pwysleisio mai nod yr astudiaeth hon oedd i gasglu data cychwynnol, a gosod seilwaith ar gyfer ymchwil a chydweithio pellach ar y pwnc dan sylw.

Dengys yr ymchwil bod yna ganfyddiad ymysg cyfranogwyr bod yna gyfleoedd a risgiau i'r Gymraeg yn gysylltiedig â dynodiad Statws Treftadaeth y Byd, ac roedd yna gonsensws bod angen sicrhau cydbwysedd er mwyn gwarchod yr hyn sy'n arbennig ac unigryw am gymuned Bethesda. Fodd bynnag, roedd yna amrywiaeth barn o safbwynt ymhle mai canfod y cydbwysedd hwn. Yn gyffredinol, credir y dylai unrhyw ddatblygiadau nid yn unig darparu buddion economaidd ond hefyd darparu buddion cymdeithasol gan gynnwys manteision i'r Gymraeg. Er hynny, mae angen ymchwil pellach ar raddfa fwy er mwyn datblygu dealltwriaeth cynhwysfawr o'r pwnc o dan sylw.

## 2. Cyflwyniad

---

Yn Chwefror 2023 comisiynwyd Prifysgol Bangor (Prys a Hodges) i gynnal astudiaeth ymchwil, ar y cyd â Chyngor Gwynedd i archwilio'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi ymweld cynaliadwy ym Methesda. Cyllidwyd yr astudiaeth beilot drwy Gronfa Sbarduno Prifysgol Bangor sydd a'r nod o annog cynigion cydweithredol sy'n ceisio uwchraddio ymchwil bresennol a datblygu meysydd cryfder. Clustnodwyd amserlen ymchwil o Fawrth i Orffennaf 2023 er mwyn cwblhau'r astudiaeth ymchwil.

Diben y gwaith oedd cynnal astudiaeth beilot yn archwilio i ddatblygiad cymunedol, economaidd ac ieithyddol yng nghyd-destun dyfarniad diweddar y bröydd llechi fel Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r cymunedau hyn yn bodoli o fewn cyd-destun economaidd ac ieithyddol unigryw. Mae'r cymunedau dan sylw wedi gweld dirywiad economaidd dros y degawdau yn sgil cau neu grebachu'r diwydiant llechi. Yn ogystal, mae'r cymunedau hyn yn gymunedau ble mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw, gan gynnwys Bethesda, Deiniolen, Llanberis a Blaenau Ffestiniog. O ganlyniad, gellir dadlau fod ecoleg y Gymraeg, a'i chynladwyedd, o fewn y cymunedau hyn, yn destun o bwys i gynllunwyr ieithyddol a gwneuthurwyr polisi (ieithyddol ac economaidd).

Mae datblygiad twristiaeth yn yr ardaloedd hyn (ac yng Ngwynedd yn gyffredinol) yn bwnc dadleuol ble codir cwestiynau am ddatblygiad economaidd, natur swyddi, cyflogau lleol a'r farchnad dai. O fewn nifer o achosion codi'r cwestiynau ynglŷn â chynladwyedd hir dymor y Gymraeg o fewn y bröydd hyn. Nod y prosiect felly yw cychwyn ar ddatblygu strategaethau a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth empirig i gefnogi datblygiad ymweld twristiaeth gynaliadwy a llewyrchus o fewn y bröydd hyn. Fel cam cyntaf i'r bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd astudir un gymuned, sef Bethesda, er mwyn cael mewnwelediad cychwynnol i rai o'r heriau, a'r cyfleoedd, a all godi o ddatblygiad Safle Treftadaeth y Byd ar gynladwyedd y cymunedau Cymraeg eu hiaith hyn.

## 3. Cwestiynau Ymchwil

---

Ystyriwyd y cwestiynau ymchwil isod:

- a) Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r cyfleoedd sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?
- b) Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r heriau sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?
- c) O safbwynt y Gymraeg, pa gefnogaeth sydd angen ar y sector yn wyneb y datblygiadau hyn?

## 4. Methodoleg

---

Defnyddiwyd dulliau ymchwil ansoddol i gasglu data ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon. Mae dulliau ansoddol yn caniatáu casglu data cyfoethog am brofiadau a barn unigolion er mwyn ceisio deall heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o economi ymweld cynaliadwy a thwristiaeth sy'n deillio o ddyfarniad safle treftadaeth byd UNESCO.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ansoddol dwys (7 cyfweiliad) gyda pherchnogion busnes ac arweinwyr mentrau cymdeithasol neu fudiadau cymunedol amrywiol a oedd wedi ei leoli ym Methesda a'i cyffiniau. Defnyddiwyd technegau samplu fwriadus i ddedhol y cyfranogwyr penodol er mwyn ceisio sicrhau trawstoriad o ran cefndir a barn. Cynhaliwyd y cyfweiliadau mewn person ac ar-lein. Parhaodd pob cyfweiliad oddeutu awr, a defnyddiwyd atodlen gyfweld i arwain y cyfweiliadau.

Yn ogystal, cynhaliwyd un grŵp ffocws ar-lein gydag aelodau'r cyhoedd ym Methesda (6 person). Defnyddiwyd techneg samplu gyfleus i ganfod gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y grŵp ffocws trwy ddyrannu posteri, hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy rwydweithiau o fewn y gymuned leol. Roedd pawb a gymerodd rhan yn y grwpiau ffocws 16 mlwydd oed a throsodd.

Nod yr ymchwil oedd cynnwys rhwng 6-10 unigolyn o fewn y grŵp ffocws gan sicrhau trawstoriad o ran oedran, rhyw a chefnidir ieithyddol. Fodd bynnag, roedd pob un o gyfranogwyr y grŵp ffocws yn siaradwr Cymraeg. Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu eu diddordeb yn y pwnc.

Defnyddiwyd pecyn meddalwedd gwyddorau cymdeithas NVivo er mwyn cynorthwyo gyda'r dadansoddiad thematig ac adnabod themâu ymchwil allweddol o'r data a gasglwyd o'r cyfweiliadau.

## 5. Moeseg Ymchwil

---

Cyflwynwyd cais moeseg i Bwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor a amlinellodd holl gamau allweddol y broses ymchwil. Dyfarnwyd caniatâd gan y Pwyllgor Moeseg i gasglu data o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws fel rhan o'r peilot ymchwil hon. Esboniwyd pwrpas a dibenion yr astudiaeth ymchwil gan ddarparu gwybodaeth i gyfranogwyr y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws oedd yn esbonio amcanion yr ymchwil, cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, a sut y defnyddiwyd ac y storiwyd y data ymchwil a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth.

## 6. Themâu Allweddol

---

Mae'r adran hon yn adrodd ar y ddata ansoddol a gasglwyd drwy gynnal cyfweiliadau gyda pherchnogion busnes ac arweinwyr mentrau cymdeithasol neu aelodau o fudiadau cymunedol amrywiol a oedd wedi ei leoli ym Methesda a'i chyffiniau (7 cyfranogwr). Yn ogystal, adroddir ar y ddata ansoddol a gasglwyd drwy gynnal un grŵp ffocws ar-lein gydag aelodau'r cyhoedd ym Methesda (6 person). Er mwyn gwarchod cyfrinachedd y cyfranogwyr, defnyddiwyd ffugenwau.

Yn yr adran hon byddwn yn trafod y themâu allweddol canlynol:

- Y Gymraeg ym Methesda
- Twristiaeth ym Methesda
- Darparu gwasanaethau Cymraeg
- Cyfleoedd i fusnesau a sefydliadau cymunedol
- Llety tymor byr ac ail gartrefi
- Cyflogaeth
- Annog defnydd o'r Gymraeg yn y sector dwristiaeth
- Hyrwyddo a rannu gwybodaeth am y gymuned
- Y Gymraeg ac Arfer da

### Themâu cyfweiliadau

#### Y Gymraeg ym Methesda

Mae'n ganfyddiad gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr bod y Gymraeg yn gymharol gryf ym Methesda, ac yn parhau i fod yn iaith gymunedol. Fel eglurir un cyfranogwr:

*"Yn amlwg mae'r Gymraeg yn iaith fyw ym Methesda, a bydden i'n deud mae fy nisgwyl i, pob tro dwi'n cerdded mewn i siop, ydy mod i'n medru siarad Cymraeg."*

**Gwyndaf**

Fodd bynnag, cred cyfranogwr arall (nad oedd yn siarad Cymraeg) bod cyfansoddiad ieithyddol yr ardal yn dra gwahanol:

*"Locals often speak to each other in Welsh if they know each other. Maybe 40%, I don't know". Sam*

Ymddengys felly bod ymwybyddiaeth o gyfansoddiad ieithyddol, a chanfyddiadau am ei ddefnydd yn yr ardal, yn amrywio o blith cyfranogwyr yr astudiaeth.

## Twristiaeth ym Methesda

Mae'n ganfyddiad lled gyffredin ymhlith y cyfranogwyr nad yw twristiaeth yn effeithio'n ormodol ar Fethesda ar hyn o bryd, yn bennaf gan fod ymwelwyr yn dueddol o basio trwy'r pentref heb stopio.

Cred rhai y dylid gwneud mwy i fanteisio ar y twristiaid hyn:

*"I think Bethesda is almost missing a trick. A lot of people drive straight through Bethesda, they turn off the A55 and they drive through Bethesda to get to the Ogwen Valley or possibly Yr Wyddfa. Maybe they stop at Tesco and buy a sandwich, before they go hiking or rock climbing. Erm I think Bethesda needs to do more to capture those tourists."* **Sam**

Fodd bynnag, roedd yna amrywiaeth barn o blith rhai cyfranogwyr o beryglon posib gor-dwristiaeth ar gynladwyedd yr iaith, gyda rhai o'r farn bod cymuned Bethesda yn ddigon gwydn i wrthsefyll datblygiadau yn y sector:

*"Da ni'n mewn lle da, dwi'n meddwl, i fedru neud y fwyd' o be bynnag ddaw trwy dwristiaeth heb iddo fod yn ormod o fgythiad i'r iaith".* **Gwyndaf**

Tra bod eraill yn rhybuddio o beryglon gor-dwristiaeth:

*"Da ni'n gweld lle bynnag mae twristiaeth yn dŵad yn gryf, mae'r Gymraeg yn marw. Fel iaith gymunedol. Mae 'di digwydd degawdau yn ôl mewn ardaloedd fel Bae Colwyn a Llandudno er enghraifft, ac wedyn yn y Chwedegau mewn ardaloedd fel Capel Curig a Beddgelert, a rŵan mae o'n ymledu ymhellach fyth i'r unig greiddiau o gymunedau Cymraeg sydd yn weddill."* **Iestyn**

Yn hynny o beth, mae geiriau un cyfranogwr yn cwmpasu'r her sy'n wynebu'r gymuned:

*"So the big question is, how far do we want to embrace this, and how do we do it without becoming another Betws y Coed or even a Llanberis. How can we do this in a Bethesda way? And I think we can take a lot of lessons from how Blaenau do it."*  
**Nancy**

Nid yw'r cyfranogwr am i Fethesda efelychu'r math o ddatblygiad sydd wedi bod yn y sector dwristiaeth yn ardaloedd megis Betws y Coed a Llanberis; a'r awgrym yw, efallai, bod y cymunedau yma wedi colli rheolaeth ar raddfa'r datblygiadau. Gellid dehongli sylwadau'r cyfranogwr, o bosib, o fod eisiau gweld y gymuned yn perchnogi ac yn elwa o ddatblygiadau priodol a chynaliadwy yn y maes.

Cyfeirir un cyfranogwr at adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n clustnodi dynodiad UNESCO fel ffactor sy'n arwain at or-dwristiaeth. Credir bod y dynodiad yn debygol o



gynyddu'r ddibyniaeth sydd ar dwristiaeth, a thrwy hynny yn tanseilio amrywiaeth a chadernid cyflogaeth yr ardal, meddai:

*“Dydy twristiaeth ddim yn dod â ffyniant, mae ardaloedd twristiaeth yn dlawd”.*

**lestyn**

Dadleir nad oes yna fecanwaith ar gael ar hyn o bryd i fesur dylanwad datblygiadau o'r fath ar y Gymraeg nac ychwaith fodd o liniaru yn erbyn sgil-ffeithiau negyddol.

At hyn, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn cydnabod y gall cynnydd yn y nifer o ymwelwyr roi straen ar yr isadeiledd presennol, ond nid oedd y rhan fwyaf yn gweld hyn yn rhwystr, ond yn hytrach rhywbeth i'w liniaru. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau cydbwysedd, fel nad yw'r hyn sy'n arbennig am Fethesda yn cael ei golli. Meddai un cyfranogwr:

*“We really could benefit more from the level of tourists here. But it needs some fairly big ideas and some bold thinking but at the same time being very aware to keep the local side of things really, that to the forefront as well. So its how we can move forward keeping both in balance really.” Nancy*

Atega cyfranogwr arall:

*“Dydw i ddim yn wrth dwristiaeth fel y cyfryw, ond sŵn ni'n gallu gwneud gwell gwaith o lawer ar reoli'r dwristiaeth na, a chyfeirio'r dwristiaeth - pa raddfa, pa ganlyniadau, ac wrth gwrs i ni fel cymunedau Cymraeg cael y budd mwyaf o dwristiaeth.” lestyn*

Mae'r data yn awgrymu felly bod nifer o'r trigolion yn poeni am or-dwristiaeth a gwelwyd cred bod angen cymryd camau i sicrhau bod angen cynllunio a rheoli datblygiadau economaidd a chymunedol fel fod y gymuned yn manteisio o unrhyw ddatblygiadau pellach.

Darparu gwasanaethau Cymraeg

Wrth ystyried y Gymraeg ym myd busnes ym Methesda, roedd y sefydliadau cymunedol a gyfwelwyd yn gweithredu ac yn cynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg a theimlant eu bod mewn lle da i wneud hyn gan fod ganddynt ganran uchel o staff neu wirfoddolwyr a oedd yn rhugl yn y Gymraeg. Ar adegau, golygai hyn bod yna wallau iaith ar y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, ond ar y cyfan teimlai bod hyn yn fater cymharol fach wrth ystyried y cyfraniad maent yn gwneud i hyfywedd y Gymraeg.

Noda cwmni arall, mewn perthynas â pheccynnau'r cynnyrch, nad ydynt yn cyfieithu pob dim air am air, ond yn hytrach yn sicrhau bod yna gydbwysedd rhwng y ddwy iaith a bod 'naws' y brandio yn Gymraeg. Er bod y perchennog wedi dysgu Cymraeg yn rhugl, noda bod

ysgrifennu yn y Gymraeg yn cymryd mwy o amser iddynt. Byddant yn gofyn i ffrindiau i wirio unrhyw destun a oedd yn mynd i gael ei argraffu, ond teimlir nad oedd yn ormod o broblem os oedd yna fân wallau ar y cyfryngau cymdeithasol.

*“We don’t slavishly translate everything but we try to have a balance. And if anything, the overall ‘naws’ has to be Welsh.”* **Nancy**

Roedd perchennog busnes arall wedi newid enw’r busnes i’r Gymraeg wrth gymryd yr awenau; teimlai bod hynny’n bwysig gan fod y busnes wedi ei leoli yng Nghymru. Er nad yw’r perchennog yn siarad llawer o Gymraeg ei hun, mae aelodau’r staff sy’n delio gyda’r cyhoedd yn siarad Cymraeg a theimla bod hyn yn arwydd o barch i’w gwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw’n defnyddio’r Gymraeg ar unrhyw ddeunydd sydd wedi ei argraffu gan resymegu bod pawb yn gallu darllen Saesneg.

Cred perchennog busnes arall y gall y Gymraeg fod yn rhwystr i’w fusnes a hynny gan nad yw eu cwsmeriaid, sydd fel arfer yn dod o Loegr, yn siarad unrhyw Gymraeg. Meddai:

*“If, for example, a lot of my website was translated into Welsh I think it would almost be a barrier to my clients who are English. I think translating a few key words, like on my page about Glyder Fawr, I kind of say how to pronounce it in Welsh, so little bits are useful, but I don’t think it would be good from a business perspective or helpful to translate much more”.* **Sam**

At hyn, er ei fod yn gefnogol o ddefnyddio’r enw Cymraeg ar yr Wyddfa yn hytrach na’r enw Saesneg mewn egwyddor, os nad yw’n teimlo bod gan ei gwsmeriaid a llawer o ddiddordeb yn y Gymraeg, bydd yn defnyddio’r enwau Saesneg ‘er hwylustod’:

*“I try and read the room, if they’re kind of like really interested in it then I’ll try and use yr Wyddfa more. If they kind of show not much interest then I’ll continue calling it Snowdon by itself just for ease, yeah, ease for me and ease for them to listen to.”*

**Sam**

Gellir dadlau bod y data’n amlygu dyhead gan gyfranogwyr yr astudiaeth hon i ddefnyddio’r Gymraeg yn ei busnesau a mentrau cymdeithasol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod angen cefnogaeth ar rai ohonynt i’w grymuso i ddefnyddio’r Gymraeg.

## Cyfleoedd i fusnesau a sefydliadau cymunedol

Roedd perchnogion busnes yn enwedig yn gweld y dynodiad yn fodd o ddenu mwy o gwsmeriaid. Mae strategaeth busnes un o’r mentrau cymdeithasol a gyfwelwyd yn seiliedig ar fanteisio mwy ar dwristiaeth er mwy rhoi cymorthdal i’w gwaith cymunedol:

*“Mae’r weledigaeth wedi bod ers 5 mlynedd ein bod ni’n trio manteisio mwy ar dwristiaid er mwyn dod ag incwm i mewn, a bod hwnnw wedyn, y syniad yw wedyn bod hyn yn sybsideiddio’r gwaith cymunedol sy’n digwydd.” **Gwyndaf***

Fodd bynnag, cydnabyddir y cyfranogwr nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd oherwydd amgylchiadau tu hwnt i’w rheolaeth megis yr argyfwng costau byw, ond bod yna gynllun ar waith i geisio mynd i’r afael a’r her yma.

Roedd gweledigaeth nifer o’r cyfranogwyr ar gyfer Bethesda yn seiliedig ar ddatblygu’r stryd fawr yn ofod mwy dymunol i fyw a gweithio, a nifer yn gytûn bod angen gwesty safonol ym Methesda.

*“Da ni angen cael rethink da o be da ni am neud hefo’r highstreet. Tymod, yr highstreet wan, the days of the butcher, baker, candlestickmaker, they’ve gone. Be sgin ti wan, os ti’n dreifio trwy Fethesda wan, ma’r siops i gyd di cau, gwag”. **Ben***

Yn gyffredinol, roedd yna gefnogaeth i ddatblygiad yr Hen Bost, sef canolfan treftadaeth a fydd wedi ei leoli ar y stryd fawr, a nodwyd mai’r gobaith yw y byddai hyn yn arwain at adfywio rhai o’r siopau gwag ar y stryd fawr. Cysylltir hyn gyda hyfywedd y Gymraeg yn y modd y byddai’r siopau hyn yn cael eu rhedeg gan bobl leol sy’n siarad Cymraeg ac yn hynny o beth yn fodd o ddangos i ymwelwyr bod y Gymraeg yn iaith byw a byddai angen ei ddysgu petaent yn penderfynu symud i’r ardal. Fodd bynnag, mae eraill yn amau a fydd y datblygiad yn ddigon i ddenu twristiaid i’r dref, ac yn gofyn a fydd y cafffi newydd sy’n rhan o’r datblygiad yn andwyol i’r busnesau bwyd sy’n bodoli ar y stryd fawr eisoes.

Llety tymor byr ac ail gartrefi

Y brif her a gysylltir gyda’r berthynas rhwng twristiaeth a’r Gymraeg yw’r goblygiadau i’r stoc dai lleol. O blith y sampl roedd canfyddiad bod canran cymharol uchel o dai yn cael ei droi’n llety tymor byr megis Air BnB neu’n ail gartrefi. Roedd cred y bod hyn yn arwain at chwyddiant ym mhrisiau tai nes eu bod tu hwnt i gyrraedd pobl leol, a chysylltir hyn gyda dirywiad yn yr iaith Gymraeg. Fel mae un cyfranogwr yn egluro:

*“Well the very obvious change is that so much of the residential housing stock is going over to Air BnBs which then means that house prices go up and the young people cant afford to... it always used to be the classic place for a first time buy didnt it, wheras now it is becoming you know... rental accommodation is becoming more difficult. So there is all that side of things that we’ve really got to watch. So that if we then start losing our local... you know the youngsters growing up, and they cant find somewhere to buy locally so there is a bit of a danger that the percentage of Welsh*

*speakers here could go down, and if that's combined with a big hike in tourists numbers coming in... so we need to watch that."* **Nancy**

Cysyllta rhai y perygl yma i'r Gymraeg yn uniongyrchol gyda dynodiad statws treftadaeth byd, gan ddadlau y bydd y dynodiad yn denu math o ymwelydd sydd â'r cyfalaf i fedru prynu ail gartref yn yr ardal, fel eglura un cyfranogwr:

*"Fel mae'r dogfennau cais yn deud, mae o'n ceisio denu pobl sydd yn gwario rhagor, twristiaid mwy cefnog ella, sydd â diddordeb mewn materion diwylliedig, hanesyddol - sef yr union bobl sydd â'r arian i brynu ail gartrefi".* **Iestyn**

Cred eraill bod cymhathu ieithyddol yn rhywbeth sy'n dod yn llai cyffredin, a hyn yn berygl i'r Gymraeg.

*"Y broblem gyda'r Gymraeg mewn cymuned fel Bethesda 'dy, dim y twristiaid, ond y bobl sy'n aros 'am 24/7. Hwn 'dy'r broblem. Pobl ddi-gymraeg."* **Ben**

Roedd eraill o'r farn bod y gymuned yn ddigon gwydn i fedru gwrthsefyll datblygiadau o'r fath, er bod yna gydnabyddiaeth bod yna bob tro elfen o risg:

*"Could it happen here? I don't think so. Well there's always a chance, I'd hope not. I think that if it (twristiaeth) expanded more then homes might be bought by the English as secondary holiday homes [...] I just think the community is strong enough, and if they did like it that much and had it as their first home instead of their second home and had children that went to school here and so on and so forth then the language can only grow then. Yeah there's two sides to the coin, and its really hard to say".* **David**

Gwelwn felly bod amrywiaeth barn o blith y sampl ynglŷn a beth yw oblygiadau hirdymor y newid mewn defnydd o'r stoc dai leol. Er hynny, mae'r data yn awgrymu bod cyfranogwyr yr astudiaeth yn ymwybodol bod newid ar y gweill yn nefnydd stoc tai y gymuned, a bod hynny yn codi cwestiynau am hyfywedd y Gymraeg ym Methesda.

## Cyflogaeth

Roedd yn ganfyddiad cyffredin bod swyddi sy'n talu'n dda yn un o hanfodion cymuned lewyrchus lle gall y Gymraeg ffynnu.

Yn ôl un cyfranogwr:

*"Jobs. Housing. Jobs. Housing. Mae nhw'n mynd hefo'i gilydd tydan. Dyma'r unig ffordd o safio'r Gymraeg mewn pentrefi fel Bethesda. Gwaith a thai".* **Ben**

Cred nifer hefyd y dylai cyflogi siaradwyr Cymraeg lleol o fewn y sector dwristiaeth fod yn flaenoriaeth os am annog defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector.

Fodd bynnag, roedd yn ganfyddiad nad oedd hyn yn rhywbeth cyffredin ar hyn o bryd, a'i bod hi'n anodd recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i'r swyddi hyn. Medd un cyfranogwr:

*“Mae'n anodd recriwtio yn y maes ac mi rydan ni'n ffeindio bod ni'n cael trafferth cael y wyneb cyhoeddus 'na sydd yn siarad Cymraeg.”* **Gwyndaf**

Tra bod rhai yn ansicr am y rhesymau tu ôl hyn, awgryma eraill bod swyddi o fewn y sector yn dueddol o fod yn waith tymhorol, ansefydlog gyda chyflogau cymharol isel. Awgrymir rhai y dylid annog pobl leol i fentro i gychwyn busnesau ym maes twristiaeth gan fod eu hymdriniaeth yn fwy tebygol o fod yn gydnaws ag anghenion y gymuned, a gellid darparu hyfforddiant a chyllid i annog hyn.

Her benodol a godwyd gan un busnes oedd yr angen yn y dyfodol agos i drosglwyddo awenau'r busnes i rywun arall wrth i'r cyfranogwr ymddeol. Teimla'r cyfranogwr bod y cwmni yn perthyn i'r ardal leol, a bod yna naws Cymraeg a Chymreig i'r busnes, a chredant bod yna berygl i hynny gael ei golli petai'r cwmni yn cael ei drosglwyddo i rywun nad sydd yn gwerthfawrogi hyn. Hoffai fod yn meithrin rhywun lleol gyda'r gobaith yr hoffant barhau gyda'r cwmni yn y dyfodol.

*“My gut feeling is that I really want to nurture someone locally to take on... but, I don't know... Either way, its got to be someone from outside who would be more than willing to take on the Welsh language and Welsh culture as well as be passionate about [producing the product] or finding somebody locally who has sufficient passion in [producing the product] to want to do it.”* **Nancy**

Gwelwn o'r dyfyniadau uchod bod cyfranogwyr yr astudiaeth yn gweld recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn her ac y gall hyn fod yn broblem wrth i'r diwydiant twristiaeth ddatblygu a thyfu yn y gymuned.

## Annog defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector dwristiaeth

Credir eraill y dylid prif-ffrydio hyfforddiant 'naws am le' fel ei bod yn rhan o gyrsiau busnes cyffredinol, ac nid yn rhywbeth dewisol, ar wahân. Roedd yna ganfyddiad gan rai bod busnesau yn dueddol o fod yn gefnogol o'r Gymraeg mewn egwyddor, a gyda chefnogaeth efallai y byddai mwy o gynnydd o safbwynt ei defnydd o'r Gymraeg.

Ar y llaw arall, credir rhai bod yna ofyn am elfen o orfodaeth a fyddai'n ei wneud yn ofynnol i gwmnïau o fewn y sector dwristiaeth defnyddio'r Gymraeg. Tra bod rhai yn meddwl bod hyn yn rhywbeth weddol hawdd i'w wneud, cred eraill y gallai fod yn anodd gweithredu.

Fodd bynnag, awgrymir un cyfranogwr bod llawer o ddatblygiadau yn cael ei yrru gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a mantais hyn yw y gellid sicrhau bod unrhyw gefnogaeth yn dod gydag amodau, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolig i ddatblygiadau.

Serch hyn, er bod yna gydnabyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn weledol o fewn y sector, gall fod yn lled "arwynebol o gymharu â chyfanswm effaith y farchnad ymwelwyr". Ymhelaetha un cyfranogwr:

*"Dydy presenoldeb taflenni Cymraeg er enghraifft ddim yn atal pobl rhag gadael ardaloedd lle mae twristiaeth yn gryf, achos bod 'na ddim swyddi, neu fethu fforddio cartref. Dyna beth sydd yn gwneud y gwahaniaeth."* **Iestyn**

Creda y dylid ceisio annog ymwelwyr o fannau eraill o Gymru, fel bod yna fwy o alw a defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector. O ganlyniad gwelwyd yn yr astudiaeth beilot hon bod cyfranogwyr yn gweld yr angen i gynnwys mwy o'r Gymraeg o fewn y sector dwristiaeth, ond y gall hynny fod yn heriol i'w wireddu mewn rhai achosion.

Hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am y gymuned

Pwynt a gododd gan fwy nag un cyfranogwr oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r statws dreftadaeth o blith ymwelwyr:

*"Yeah massive opportunities. Obviously its UNESCO world heritage site which carries a lot of weight. A lot of people don't even realise that it is, when I point it out and mention it, so I think it could be advertised better."* **Sam**

Mae yna hefyd alw gan rai busnesau i dderbyn arweiniad ar sut y gellid hwythau ymgysylltu a manteisio ar y dynodiad:

*"I would love to talk to somebody to see how we could link in a little bit more effectively to that."* **Nancy**

Cred nifer bod gan Fethesda eisoes lawer i'w gynnig i ymwelwyr o safbwynt llwybrau cerdded a beicio, ond nad oeddynt yn cael ei hyrwyddo yn ddigonol. Dyma ddywedodd un cyfranogwr:

*"Ma gyda ni cycle route wan sy'n mynd o Porth Penrhyn yr holl ffordd i Llyn Ogwen. Promotio hwnnw yn well. Cal bach mwy o bike hire. Pethe fela. Ac eto ar Lon Las Ogwen, deud os ti'n i Ffrainc neu Sbaen a ti'n mynd ar cycle route. Ma na llwyth o caffis. Ma na le i drwsio beics ar y cycle routes. Sgen ti ddim byd yng Ngymru. Da ni'n hopeless weithiau".* **Ben**

Gellir dadlau felly bod angen gwaith pellach o ran cydlynu a rhannu gwybodaeth am y gymuned hon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried statws dreftadaeth UNESCO gan fod canfyddiad o blith y sampl a holwyd bod ymwybyddiaeth yn isel ar hyn o bryd.

## Y Gymraeg ac Arfer da

Mae yna nifer o sefydliadau a mentrau cymunedol ym Methesda sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg yn unig. Cyfeiria rhai at hyn fel "dangos pendantrwydd" mewn perthynas â'r Gymraeg, ac eraill fel "tynnu linnall galed" wrth gadw at y Gymraeg. Credir bod hyn yn fodd effeithiol o rymuso'r Gymraeg, gan ei bod yn darparu gofod i ddefnyddio'r Gymraeg ac i drochi yn yr iaith.

Cynigir enghreifftiau penodol o fod yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft yn darparu cytundebau cyflogaeth yn y Gymraeg yn unig. Fodd bynnag, nid pawb sy'n gefnogol o hyn. Fel eglura un cyfranogwr:

*"Mae'r cwmni wedi cymryd llinell mor galed a phosib, sef mae pob dim yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg, hynny yw, dyda ni ddim yn gwmni dwyieithog [...] Da ni yn cael cwynion, da ni di cael cyn aelod o staff yn cwyno bod ni'n gneud pethau fel rhannu contractau yn Gymraeg, a bod ni'n gwrthod rhoi contract Saesneg i bobl. Rhyw bethau fela. Ond ein hagwedd ni ydy 'tyff'." **Gwyndaf***

Cynigir enghraifft benodol arall o fod yn cynnal digwyddiadau diwylliannol trwy'r Gymraeg, gydag offer cyfieithu ar gael. Cred y darparwyr bod hyn yn rhoi pendantrwydd i'r Gymraeg heb allgau siaradwyr di-gymraeg, ac yn cyfleu'r neges i dwristiaid y byddai angen iddynt ddysgu'r iaith petai'n nhw'n symud i Fethesda i fyw. Fodd bynnag, cred un cyfranogwr bod y modd cadarn yma o weithredu yn gallu eithrio rhai aelodau di-gymraeg o'r gymuned, meddai:

*"I think that as [sefydliad cymunedol] is very much Welsh Language based I think it is a little bit off-putting, I think, for the English speakers, and somehow or other, whatever happens has to include the English speaking population here in Bethesda as well as the Welsh speaking. And I know [sefydliad cymunedol] really do try to do their best but they do get it... I know that some English speakers will consider that its not for them because its Welsh-speaking, which is a shame. So it could be that, there might be a need going forward for more initiatives to work in paralel with [sefydliad cymunedol], to ensure we get everybody, well a wider cross-section". **Nancy***

Ond ar y cyfan, credir bod y strwythurau sydd ar gael, o safbwynt y mentrau a sefydliadau cymdeithasol hyn, yn golygu bod datblygiadau yn yr ardal yn cael eu gyrru gan bobl sy'n deall pwysigrwydd y Gymraeg ac egwyddorion datblygu cymunedol. Roedd yn ganfyddiad

gan rai bod Cyngor Gwynedd hefyd yn ymrwymedig i'r gwerthoedd hyn, fel eglura un cyfranogwr:

*“Mae gyda ni strwythura reit gadarn yn y pentra ac wedyn yn y sir ehangach, fel bod gen ti lot o ddatblygiad 'ma yn cael ei yrru gan Bartneriaeth Ogwen, gan Gyngor y Gymuned, sy'n ymwybodol o iawn, iawn o be di pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac sy'n mynd i'r roi'r gymuned yn gyntaf.”* **Gwyndaf**

Er gwaethaf hyn, roedd eraill yn eu barnu Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru am danseilio nodau ieithyddol a chymunedol trwy weithredu mewn modd anghyfrifol mewn perthynas â cheisio sicrhau dynodiad safle treftadaeth byd, gan anwybyddu canlyniadau negyddol posib.

*“Ar y naill law maen nhw'n sôn am hyrwyddo'r Gymraeg, a miliwn o siaradwyr Cymraeg, a pholisi addysg Gymraeg ond os wyt ti'n tanseilio fo ar y llaw arall yn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn gryf mae'r gwaith yn mynd yn hollol ofer. Maen nhw ei hunain yn tanseilio'r hyn maen nhw wedi ceisio adeiladu”.* **Iestyn**

Ymddengys felly nad yw pawb yn gytûn o safbwynt yr hyn a ystyrir yn arfer da. O ganlyniad, gellir dadlau bod angen ymchwil pellach er mwyn deall profiadau ehangach y gymuned wrth ystyried y Gymraeg ac arfer da.

## Grŵp ffocws

Yn yr adran hon byddwn yn trafod y themâu allweddol canlynol o fewn y grŵp ffocws:

- Y Gymraeg a thwristiaeth ym Methesda
- Seilwaith a Thai
- Buddsoddiad mewn a thrwy law pobl leol
- Pobl ifanc

## Y Gymraeg a thwristiaeth ym Methesda

Er bod cyfranogwyr y grŵp ffocws yn byw eu bywydau trwy'r Gymraeg i raddau helaeth, wrth gymdeithasu, mynd i'r siop a thafarndai lleol, ac yn eu gwaith, cydnabyddir bod yna 'bocedi mwy Saesnigaid' i'w canfod yn y pentref. Credir bod mwy o bobl wedi symud i'r ardal o'r tu allan yn fwy diweddar, gyda rhai ohonynt yn dysgu Cymraeg, ond eraill ddim. Felly er gwaethaf cryfder y Gymraeg yn yr ardal o gymharu ag ardaloedd eraill, mae'n ganfyddiad nad yw'r iaith o reidrwydd yn saff. Fel mae un cyfranogwr yn egluro:

*“Fedrwn ni ddim ymlacio a meddwl bod ni'n iawn, achos dyda ni ddim”.* **Meilyr**



Credir bod presenoldeb ymwelwyr wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar yn sgil datblygiadau ym maes twristiaeth a diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, yn debyg i gyfranogwyr cyfweiliadau'r astudiaeth hwn, mae'n ganfyddiad gan gyfranogwyr y grŵp ffocws bod yr ymwelwyr yma yn dueddol o "dreifio trwy Bethesda" i ymwneud a'r gweithgaredd, ac wedyn "mynd o 'na". Credir rhai bod hyn oherwydd nad oes gan y pentref lawer i'w gynnig i'r ymwelydd; eglurir bod yna brinder llefydd i fwyta gyda'r nos, a dim gwesty o gwbl. Yng ngeiriau un cyfranogwr, mae "*twristiaeth yn mynd un ffordd, ond ma'r facilities sgynon ni yn mynd ffor arall*". **Ceredig**

Credir bod y Gymraeg yn gryf o fewn busnesau Bethesda a chyniwyd esiamplau o ddafarn ar y stryd fawr, sydd wedi newid ei enw yn ddiweddar i fod yn fwy perthnasol i'r ardal. Credir bod y tafarndai eraill hefyd yn Gymraeg eu naws, ynghyd â nifer o siopau.

*"Fedrai ddim meddwl am gwmni ym Methesda sy ddim yn rywle lle dwi'n meddwl byswn i'n gallu cered mewn a ffindio rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg o leia."* **Cadi**

Credir bod yr ymwelwyr sydd yn dod i'r ardal yn mwynhau clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn y llefydd hyn; meddai un cyfranogwr wrth gyfeirio at ymwelwyr di-Gymraeg yn ymweld â'r dafarn leol:

*"Ond pobl o ffwrdd yn cael croeso ac yn mynd o 'na yn wen o glust i glust"*. **Ceredig**

Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws, roedd amrywiaeth barn am ddylanwad Statws Treftadaeth Byd ar y gymuned. Nodwyd bod rhai busnesau wedi ennill cytundebau yn gysylltiedig â'r dynodiad treftadaeth byd. Fodd bynnag, cred eraill mai manteision tymor byr yn unig oedd rhain, a bod angen edrych i'r tymor hir i weld beth fydd dylanwad Statws Treftadaeth Byd ar Fethesda. Credir aelodau'r grŵp ffocws y dylid ceisio rhagweld a pharatoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol trwy sicrhau bod gan bobl leol y sgiliau, yr ymagwedd fentrus, a'r cyllid i fedru manteisio ar gyfleoedd.

Adlewyrchai'r cynryfiadau hyn mai bregus oedd sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned, yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws a gynhaliwyd. Nodwyd bod angen i ddatblygiadau ym maes twristiaeth, yng nghyd-destun Safle Treftadaeth y Byd, gael eu datblygu mewn modd sensitif, sydd yn grymuso'r gymuned i ddatblygu twristiaeth mewn modd sy'n cyfarfod anghenion y gymuned.

## Seilwaith a thai

Mynegwyd pryder am gyflwr y stryd fawr gan fod nifer o siopau wedi cau. Cydnabyddir bod hyn yn duedd sy'n wynebu lawer o drefi a phentrefi, ond awgrymir bod gan y Cyngor le i gefnogi busnesau ar y stryd fawr ym Methesda. Yng ngeiriau un o'r cyfranogwyr:

*"Dwi'n meddwl bod hynny'n rhywbeth mae lot o strydoedd mawr yn ei wynebu - mae'r trethi mor ridiculous o uchel, dio ddim gwerth pobl setio pethau fyny. Dwin nabad gymaint o bobl ifanc lleol sy' 'di cychwyn busnesau eu hunain, sy'n brilliant, ac yn gneud yn rili da, ond o'u cartrefi mae lot o nhw'n gneud, wedyn dwi'n meddwl ma na lot mwy fyfa'r cyngor yn gallu neud i helpu yn sicr, dwi'n meddwl."* **Cadi**

Pryder pennaf y grŵp ffocws o safbwynt dylanwad twristiaeth ar y gymuned a'r Gymraeg oedd yn gysylltiedig â'r canfyddiad bod nifer o dai'r pentref a'r dalgylch yn cael eu troi'n llety Airbnbs. Credir bod hyn yn chwyddo prisiau tai nes eu bod tu hwnt i gyrraedd pobl leol.

*"Ma 'na bobl dwi'n nabad yn bersonol sydd yn methu cael mynediad i dŷ yn yr ardal achos pobl yn prynu'r tai ma a rhoid nhw allan fel Airbnbs. Ac mae rhai o'r bobl sy'n gneud hyn yn bobl leol hefyd. Mae hynna'n bryder gen i."* **Meilyr**

Roedd hi'n ganfyddiad ymysg rhai yn y grŵp bod angen rheoli'r nifer o dai sy'n cael eu troi yn dai gwyliau:

*"Dwi'n meddwl hwyrach bod o'n ddyletswydd hwyrach, ella mynd tu allan i ddwylo'r bobl mewn ffor, ella bod angen mewn rhai ardaloedd deud na, da chi ddim yn cael Airbnbs. Yn enwedig os da chi'n meddwl am y crisis tai i bobl leol, a neud i bobl leol aros yn y man, a gallu fforddio aros de."* (12:59) **Rhys**

Fodd bynnag, cynigwyd enghraifft lle bu trawsnewid cwt yn yr ardd a'i osod fel Airbnb a chredir bod hyn yn fodel y gellid eu hannog trwy gynnig grantiau gan eu bod yn helpu i godi pwysau oddi ar stoc dai Bethesda ac yn cadw'r bunt o fewn yr economi leol.

Gellir dadlau o'r sylwadau uchod y sawl a holwyd bod yna her cyson i gymuned Bethesda oherwydd bod nifer o dai yn cael eu troi yn Airbnbs neu ail gartrefi. Mae hynny'n achosi her i bobl ifanc brynu tŷ yn lleol, tra bod eraill yn gweld cyfleoedd busnes.

## Buddsoddiad mewn a thrwy law pobl leol

Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws roedd yna deimlad cryf bod gan drigolion yr ardal lawer i'w gynnig wrth geisio mynd i'r afael â heriau yn ymwneud a thwristiaeth a'r Gymraeg - ond bod angen cefnogaeth ymarferol a buddsoddiad ariannol arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Fel eglurir un cyfranogwr:

*"Y broblem sgin ti wrth gwrs ydy buddsoddiad ynde. Da ni'n ardal ddifreintiedig felly da ni'n gallu gweld be da ni angen yma ond mae cael y cyfalaf wedyn i fuddsoddi i*

*neud y petha ma tu hwnt, sŵn i'n deud, i bobl leol Bethesda tydi. So ma raid ti meddwl wedyn am y Cyngor Sir, a'r Senedd lawr yn Gaerdydd, ydy'n nhw'n gallu rhoi grantia i gymunedau datblygu twristiaeth gynaliadwy ynde".* **Meilyr**

Dynodir esiamplau lleol o arfer da ble roedd menter cymunedol wedi datblygu unedau busnes a llety i ymwelwyr. Credir bod angen i fuddsoddiad fod trwy ddwylo sefydliadau lleol, sy'n ymwybodol o anghenion yr ardal a beth sy'n briodol o ran datblygiad. Yng ngeiriau un cyfranogwr:

*"Pobl leol yn adnabod eu hardal nhw, yn cael cefnogaeth i fuddsoddi yn yr ardal a bod 'na elw wedyn yn dod yn ôl i'r ardal, a bod o'n rhywbeth cymunedol".* **Meilyr**

Adlewyrchai'r canfyddiadau hyn yr farn fod angen grymuso'r gymuned leol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a all godi o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr enghreifftiau uchod, mae canfyddiad y bydd angen cefnogaeth ar y gymuned gan rhanddeiliaid allweddol i fanteisio ar y datblygiad hyn.

## Pobl ifanc

Thema amgen a godwyd, a hawliodd dipyn o sylw gan y cyfranogwyr, oedd ymdeimlad bod pobl ifanc yr ardal yn cael cam, yn sgil cau gwasanaethau megis y clybiau ieuencid. Fel mae un cyfranogwr yn egluro:

*"Y bobl sy'n cael y cam fwya ym Methesda ar y funud yw'r bobl ifanc. Dos na'm byd iddyn nhw. Does dim byd iddyn nhw fod yn gneud. Ac mae o mor bryderus, pan dwi'n cerdded fyny'r stryd na. Odd na gymaint yn fwy pan on i hoedran nhw. Odd gynnon ni youth club, odd gynnon ni lefydd i fynd. Ond sgynon nhw ddim byd i neud."* **Cadi**

Mewn ymateb i hyn, awgrymwyd y gellid gweithredu er mwyn annog perchnogaeth y to ifanc o'i hardal gan ei bod hi'n ganfyddiad gan aelodau'r grŵp ffocws bod y dirwedd odidog sy'n gefnlen i'r pentref yn destun balchder. Credir eraill bod yna ormod o bwyslais ar wneud gradd addysg uwch a bod yna esiamplau o bobl leol sydd wedi cychwyn busnesau llwyddiannus, a dylid annog mwy o hyn. O gymharu ag ardaloedd eraill, credir bod pobl ifanc Bethesda, yn hanesyddol, yn fwy tebygol o aros ym Methesda, a magu teulu yno - o bosib oherwydd cysylltiadau cymunedol cryf. Gwelwyd hyn fel rhywbeth cadarnhaol ac i'w dathlu.

Mae'r thema hwn yn adlewyrchu gofid aelodau'r grŵp ffocws am gyfleodd i bobl ifanc yn yr ardal, a'r gofid a fodolai am gadw pobl ifanc o fewn y gymuned. Fodd bynnag, yn ôl aelodau'r grŵp ffocws, mae canfyddiad o ysbryd cymunedol amlwg i'w ganfod yn y gymuned a all fod yn seilwaith cadarnhaol i adeiladu arno yn y dyfodol.

## 7. Trafodaeth

---

Mae data'r astudiaeth hon yn darparu cipolwg ar ganfyddiadau trigolion Bethesda o'r berthynas rhwng yr economi ymweld â'r Gymraeg. Yn yr adran hon, byddwn yn cynnig trafodaeth ar brif themâu'r astudiaeth mewn perthynas â'r tri chwestiwn ymchwil yr astudiaeth, sef:

- A) Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r cyfleoedd sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?
- B) Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r heriau sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?
- C) O safbwynt y Gymraeg, pa gefnogaeth sydd angen ar y sector yn wyneb y datblygiadau hyn?

Bydd y drafodaeth yn sail i gasgliadau ac argymhellion cychwynnol a fydd yn cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol fel sylfaen gwybodaeth i ymchwil pellach.

Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r cyfleoedd sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?

Barn gyffredin ymhlith cyfranogwyr yr astudiaeth hon yw nad yw cymuned Bethesda yn elwa llawer o dwristiaeth ar hyn o bryd. Ymadrodd cyffredin oedd bod ymwelwyr yn 'pasio trwodd' ac nad yw'r gymuned yn elwa yn economaidd o ganlyniad. Yn sgil hyn, credai nifer o'r sampl ymchwil a holwyd y dylid gweithredu er mwyn ceisio annog ymwelwyr i dreulio eu hamser a gwario eu harian yn y dref ei hun fel bod Bethesda'n gyrchfan twristiaeth amlwg ei hun.

Yn ôl sawl cyfranogwr, trwy ddenu mwy o bobl i ganol y pentref y gobaith yw sbarduno adfywiad o'r stryd fawr. Credir os mai busnesau 'lleol' fydd y rhain, bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio, ac yn dangos i ymwelwyr (sydd efallai a'u bryd ar symud i'r ardal) bod y Gymraeg yn iaith fyw ym Methesda a byddai angen ei dysgu. Mae'r syniad o gynnal ethos Cymraeg y dref yn bwysig i'r sampl ymchwil yr astudiaeth hon.

Cred cyfranogwyr eraill bod y statws treftadaeth byd yn gyfle i gynyddu'r nifer o dwristiaid i'r ardal; ymwelwyr cefnog efallai, sy'n ymddiddori mewn hanes a diwylliant. Fodd bynnag, roedd hefyd cred o blith y cyfranogwyr bod angen gwneud yn fwy i hyrwyddo'r statws a'r hyn sydd gan Bethesda i'w gynnig yn barod megis y llwybrau llechi.

O safbwynt y Gymraeg, credir bod mentrau cymdeithasol mewn lle da i fedru ddatblygu mentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn modd sy'n gydnaws â gwerthoedd y gymuned ac sy'n cydnabod anghenion y Gymraeg. Credir y gallent gynhyrchu incwm o dwristiaeth a'i fuddsoddi yn ôl yn y gymuned trwy gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

Gellid dadlau felly bod yna le i hyrwyddo Bethesda a'r statws treftadaeth y byd yn well er mwyn denu mwy o ymwelwyr i'r ardal. Fodd bynnag, awgrymir y dylid ceisio rhoi cynlluniau yn eu lle i sicrhau mai'r gymuned a'r Gymraeg sy'n elwa o unrhyw gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal. Gellid ystyried darparu cymorth i bobl leol gychwyn busnesau a bod busnesau presennol yn derbyn gwybodaeth ac anogaeth ar sut i wneud yn fawr o unrhyw gyfleoedd newydd. I'r perwyl hwn gwelwyd barn o blith cyfranogwyr yr astudiaeth hon fod gan fentrau cymdeithasol rôl strategol ac ymarferol yn y broses hon.

### Yn ôl rhanddeiliaid, wrth ystyried y Gymraeg beth yw'r heriau sy'n codi o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru?

Thema amlwg iawn a godwyd gan gyfranogwyr yr astudiaeth hon oedd pryder am letyau tymor byr megis Airbnb, ail-gartrefi a mewnfudo i'r ardal. Roedd y pryder hwn i'w gweld yn glir yn y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws, fel ei gilydd. Nododd nifer o'r sampl ymchwil bod yna dai ym Methesda sydd eisoes wedi ei droi yn llety Airbnb. O ganlyniad felly, gwelir y stoc dai leol yn crebachu a chwyddiant yn y prisiau tai nes eu bod tu hwnt i gyrraedd pobl leol, yn enwedig pobl ifanc lleol.

Roedd yn ganfyddiad gan rai bod y statws treftadaeth byd yn debygol o ddenu twristiaid mwy cefnog sydd â'r modd o brynu ail gartrefi neu i adleoli i Ddyffryn Ogwen. Roedd yn bryder ymhlith rhai a chredai y byddai hyn yn arwain at shifft ieithyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg wrth iddi ddod yn anoddach i fewnfudwyr gymhathu yn ieithyddol.

Gellid dadlau felly bod angen monitro'r sefyllfa yma yn ofalus, yn enwedig yn sgil newidiadau mewn cyfraddau treth cyngor, gan fod yn ymwybodol o bosibilrwydd sgil effeithiau hirdymor o ddynodi yr ardal yn Safle Treftadaeth y Byd.

Er bod y cyfranogwyr yn ymwybodol o'r canfyddiad bod datblygiadau twristiaeth yn gallu darparu swyddi i bobl leol, nodwyd bod rhai busnesau yn profi anhawster denu staff a oedd yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd. Tra bod rhai yn ansicr o'r rheswm dros hyn, cysylltir eraill swyddi'r sector dwristiaeth gydag ansefydlogrwydd, cyflogau isel a chyfleoedd tymhorol. Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn rhan o weithlu'r sector fod yn flaenoriaeth os am gynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn y diwydiant.

Awgrymai hyn bod yna le i wella ein dealltwriaeth o'r farchnad lafur leol, fel bod unrhyw ddatblygiadau yn ddiwallu anghenion bobl leol.

## O safbwynt y Gymraeg, pa gefnogaeth sydd angen ar y sector yn wyneb y datblygiadau hyn?

Yn ôl nifer o gyfranogwyr a gymerodd rhan yn yr astudiaeth beilot hon, mae angen i ddatblygiadau ym maes twristiaeth a'r economi fod yn nwylo'r gymuned leol, gan y byddai hynny yn cyfrannu at sicrhau hyfywedd y Gymraeg o fewn datblygiadau newydd. Yn seiliedig ar y gred hon roedd nifer o gyfranogwyr yr astudiaeth yn nodi bod angen cefnogaeth ar y gymuned i fanteisio ar ddatblygiadau economaidd a all ddod o ddynodiad y gymuned fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad oedd pawb o reidrwydd yn gweld gwerth y Gymraeg wrth hyrwyddo'r ardal, tra bod eraill yn gwrthwynebu'r syniad o annog twristiaeth pellach yn yr ardal, gan bod hynny yn peri bygythiad sylweddol i gynladwyedd y Gymraeg yn y tymor hir.

Roedd canfyddiad busnesau a sefydliadau o safbwynt eu hanghenion mewn perthynas â'r Gymraeg yn amrywio o fewn yr ymchwil hwn, a hynny yn gysylltiedig yn aml gyda'r pwysigrwydd roeddynt yn dynodi i'r iaith o fewn eu busnes/sefydliad. Ar y naill law, roedd sefydliadau oedd yn dynodi gwerth mawr i'r Gymraeg yn wynebu heriau megis caffael staff i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Roedd yna hefyd un enghraifft o bryder ynghylch sicrhau olyniaeth i'r busnes fel bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o hunaniaeth y cwmni. Ar y llaw arall, roedd yna enghreifftiau lle ystyrir nad oedd gan y busnes anghenion mewn perthynas â'r Gymraeg oherwydd canfyddiad o ddiffyg galw gan gwsmeriaid am wasanaethau Cymraeg a bod y Gymraeg, o bosib, yn rhwystr i gwsmeriaid di-gymraeg. Mae'r sylwadau amrywiol yn cyfrannu at yr hyn a nodwyd yn gynt sef yr angen i gynnal a datblygu naws Cymraeg Bethesda.

Roedd yr awgrymiadau ynghylch y modd orau o gynnig cymorth o ran y Gymraeg hefyd yn amrywio. Ar y naill law, awgrymir mai trwy anogaeth byddai modd darbwylllo busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Fe awgrymwyd hefyd y dylid prif-ffrydio hyfforddiant 'naws am le' fel ei bod yn rhan o gyrsiau busnes cyffredinol, ac nid yn rhywbeth dewisol, ar wahân. Ar y llaw arall, credir bod yna ofyn am elfen o orfodaeth a fyddai'n ei wneud yn ofynnol i gwmnïau o fewn y sector dwristiaeth ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson.

Ymddengys bod angen ystod o gefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol busnesau a'u hymwneud â'r Gymraeg. Lle mae cymorth yn bodoli yn barod, gellid cyfeirio gwasanaethau arbenigol hyn at fusnesau'r dref, eto i gyd yn cyfrannu at naws Cymraeg Bethesda. Gellid dadlau bod angen datblygu dealltwriaeth o fewn y sector dwristiaeth o natur ieithyddol yr ardal a'r cyfleoedd all hyn ei gynnig i fusnesau.

Fodd bynnag, er y cydnabyddir pwysigrwydd sicrhau bod yr iaith i'w gweld a'i chlywed o fewn y sector, pwysleisia rhai bod hyn yn fan beth o gymharu â sicrhau bod gan siaradwyr iaith Gymraeg swydd dda a rhywle i fyw. Credir y dylid gwneud mwy i fesur dylanwad datblygiadau megis y statws treftadaeth byd ynghyd â rheoleiddio sgil-ffeithiau megis lletyau tymor byr ac ail-gartrefi. Gallai adolygiad o'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes i ddylanwad dwristiaeth ar ieithoedd leiafrifol darparu seilwaith defnyddiol i'r gwaith hwn.

## 8. Casgliadau ac Argymhellion

---

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol fyw ym Methesda ac mae'n ganfyddiad cyffredin nad yw'r economi ymweld yn dylanwadu llawer ar y gymuned ar hyn o bryd. Cred rhai o'r sampl ymchwil nad yw hyn yn gyd-ddigwyddiad, ond nid pawb a holwyd sy'n cytuno â hynny.

Er bod y mwyafrif yn ystyried bod yna gyfleoedd i'r Gymraeg yn sgil datblygu'r sector dwristiaeth yn lleol, mae'r mwyafrif hefyd o'r farn bod yna beryglon cysylltiedig. Mae yna amrywiaeth barn i ba raddau y dylid neu y gellid lliniaru'r risgiau hyn.

Roedd y prif gyfleoedd parthed y Gymraeg yn gysylltiedig â datblygiadau economaidd a fydd yn ychwanegu at incwm bobl leol neu yn cynnig ffrwd incwm ychwanegol i fentrau cymdeithasol a fydd yn galluogi iddynt fuddsoddi mewn gweithgareddau er budd yn gymuned leol a'r Gymraeg.

Roedd y perygl amlycaf o safbwynt y Gymraeg yn gysylltiedig â chynnydd mewn lletyau tymor byr, ail-dai a mewnfudo. Roedd sgil effeithiau'r newidiadau cymunedol yma ac effeithiau hynny ar allu pobl leol i gystadlu yn y farchnad dai yn thema amlwg yr astudiaeth beilot hon. Pryder amlwg iawn a drafodwyd oedd gwytnwch y gymuned i fedru sicrhau bod unrhyw fewnfudwyr yn cymhathu yn ieithyddol.

Er bod yna ymwybyddiaeth o'r canfyddiad mai un o fuddion datblygu'r economi ymweld yw darpariaeth swyddi i bobl leol, codwyd cwestiynau o safbwynt yr angen am swyddi o'r fath. Credir bod rhai sefydliadau yn profi anhawster caffael staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, a barnwyd safon swyddi sy'n gysylltiedig â'r sector.

Roedd yn ganfyddiad cyffredin y dylai unrhyw ddatblygiadau yn y sector ystyried a blaenoriaethu anghenion y gymuned a'r iaith fel nad yw'r hyn sy'n arbennig am dref Bethesda yn cael eu herydu. Cred nifer bod annog mentrau cymdeithasol ar lawr gwlad i arwain ar ddatblygiadau yn fodd o sicrhau hyn.

Rhoddyd hefyd gryn sylw i anghenion a photensial bobl ifanc yr ardal a chredir y dylid eu harfogi gyda'r sgiliau a chyfalaf i fedru manteisio ar unrhyw gyfleoedd sydd yn dod yn sgil datblygiadau ym maes twristiaeth. Gwelwyd gred cyffredinol o blith y cyfranogwyr bod

angen i ddatblygiadau ym maes twristiaeth, a ddigwyddai'n lleol, gael ei arwain gan aelodau o'r gymuned leol. I'r perwyl hwn, gellir dadlau pwysigrwydd sicrhau rôl canolog y gymuned mewn datblygiadau ym maes twristiaeth, yn enwedig wrth ystyried datblygiadau sylweddol ei maint, fel dynodi Safle Treftadaeth y Byd i ardaloedd llechi gogledd Cymru.

## Argymhellion Cychwynnol

- 1 Cynnal gwaith ymchwil pellach i ddylanwad datblygiad yr economi ymweld ar gymunedau lle ceir dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg i ategu at unrhyw waith ymchwil arall yn y maes.**

---
- 2 Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i fentrau cymdeithasol arwain ar ddatblygiadau ym maes twristiaeth gynaliadwy sydd ag iddynt fuddion cymunedol ac ieithyddol, gan gynllunio'n ofalus i osgoi dyblygu ac i sicrhau cystadleuaeth deg.**

---
- 3 Monitro tueddiadau sosio-economiadd gan ystyried pa gamau a ddylid gweithredu er mwyn rheoleiddio unrhyw draweffeithiau negyddol neu annisgwyl.**

---
- 4 Cynnal arolwg o'r farchnad lafur i ddeall beth yw anghenion cyflogaeth lleol.**

---
- 5 Paratoi pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i fod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd posib yn sgil datblygiadau yn y sector, er enghraifft trwy addysg, hyfforddiant neu gymorth busnes.**

---
- 6 Codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau yn y sector twristiaeth, ac yn enwedig y sector twristiaeth awyr agored, o natur ieithyddol yr ardal a sut y gall eu busnesau ymateb i hynny.**
- 7 Codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth ymarferol sydd ar gael i fusnesau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.**



## 9. Atodiadau

---

Atodiad 1: Copi o Atodlen Gyfweld: Pobl Fusnes a Hwyluswyr Cymunedol (Cyfrwng Cymraeg)

Atodiad 2: Copi o Atodlen Gyfweld: Pobl Fusnes a Hwyluswyr Cymunedol (Cyfrwng Saesneg)

Atodiad 3: Copi o Atodlen Gyfweld: Grŵp Ffocws (Cyfrwng Cymraeg)

Atodiad 4: Copi o Atodlen Gyfweld: Grŵp Ffocws (Cyfrwng Saesneg)

# ATODLEN GYFWELD: POBL FUSNES A HWYLUSWYR CYMUNEDOL (CYFWELIAD)

## AMCANION:

- Casglu barn rhanddeiliaid am beth yw'r cyswllt rhwng yr economi ymweld/twristiaeth a'r Gymraeg.
- Casglu awgrymiadau rhanddeiliaid o'r cyfleoedd sy'n codi o ddynddiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wrth ystyried y Gymraeg.
- Casglu awgrymiadau rhanddeiliaid o'r heriau sy'n codi o ddynddiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wrth ystyried y Gymraeg.
- Casglu barn rhanddeiliaid am ba gefnogaeth neu ysgogiad sydd ei angen ar fusnesau twristiaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r Gymraeg.

## CYFLWYNIAD

- Cydlynnydd i gyflwyno ei hun
- Diolch am gytuno i gyfrannu tuag at y gwaith ymchwil – bydd y sesiwn yn para oddeutu awr
- Mae croeso i chi gyfrannu'n Gymraeg neu Saesneg
- Trefniadau tŷ (ar-lein): Diffodd ffonau symudol
- Trefniadau tŷ (wyneb yn wyneb): larwm dân, toiledau, ffonau symudol
- Sôn yn fras am yr ymchwil – pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Pwysleisio pwysigrwydd clywed gan bobl fel chi
- Cadw nodiadau/ recordio (Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi? Mae recordio ar gyfer trawsgrifio yn unig)
- Cadarnhau cyfrinachedd – ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r cyfweiliadau yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion y prosiect hwn yn unig ac yn cael ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd a'r cyllidwyr ar ffurf adroddiad.
- A oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

## EICH CYMUNED CHI

1. Disgrifiwch natur ieithyddol eich cymuned chi (Bethesda).
2. Beth yw natur y diwydiant ymweld/twristiaeth yn yr ardal yma?

## EICH BUSNES/SEFYDLIAD CHI

3. Ym mha ffyrdd mae'r diwydiant ymwelwyr/twristiaeth yn berthnasol i'ch busnes/sefydliad chi?
4. Ydych chi'n rhagweld cyfleoedd i'ch sefydliad/busnes yn sgil dynodiad statws treftadaeth byd?
5. Ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau i'ch sefydliad/busnes yn sgil dynodiad statws treftadaeth byd?
6. Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes/sefydliad chi? Sut a pham?
7. Beth yw'r heriau wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg?
8. Oes enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg?
9. Beth yw eich anghenion chi fel busnes/sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg?

## EICH BARN CHI

10. Ym mha ffyrdd mae twristiaeth yn dylanwadu ar y gymuned ac ar y Gymraeg yn benodol?
11. Ydy'r diwydiant twristiaeth a busnesau lleol yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
12. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw beth yn newid yn sgil dynodiad statws treftadaeth byd?  
(Sbardun: o safbwynt yr economi; y gymuned; y Gymraeg)
13. Sut ddyfodol ydych chi'n rhagweld i'r Gymraeg o fewn eich cymuned chi?

## EICH SYNIADAU CHI

14. Beth yw eich gweledigaeth chi ar gyfer Bethesda?
15. Ym mha ffyrdd gellid annog defnydd mwy helaeth o'r Gymraeg gan y diwydiant twristiaeth a busnesau lleol?

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

## DIOLCHIADAU A CHLOI

# INTERVIEW SCHEDULE: BUSINESS PEOPLE AND COMMUNITY FACILITATORS (INTERVIEW)

## OBJECTIVES:

- Gather stakeholder views on what the link is between the visitor/tourism economy and the Welsh language.
- Gather stakeholder suggestions of the opportunities arising from The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site designation when considering the Welsh language.
- Gather stakeholder suggestions of the challenges posed by The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site designation when considering the Welsh language.
- Gather stakeholder views on what support or encouragement tourism businesses need to make the best use of Welsh.

## PRESENTATION

- Coordinator to introduce themselves
- Thank you for agreeing to contribute towards the research – the session will last around an hour
- Please feel free to contribute in English or Welsh
- House arrangements (online): Turn off mobile phones
- House arrangements (face to face): fire alarm, toilets, mobile phones
- Briefly mention the research – who, why, what (see invitation)
- Stress the importance of hearing from people like you
- Keeping notes/ recording (Is recording the session acceptable to you? Recording is for transcription only)
- Confirm confidentiality – no one is named within this work
- The information gathered through the interviews will be used for the purposes of this project only and will be submitted to Gwynedd Council and the funders in the form of a report.
- Do you have any questions before we start?

## YOUR COMMUNITY

16. Describe the linguistic nature of your community (Bethesda).
17. What is the nature of the visiting/tourism industry in this area?

## YOUR BUSINESS/ORGANIZATION

18. In what ways does the visitor/tourism industry relate to your business/organisation?
19. Do you foresee opportunities for your organisation/business as a result of world heritage status designation?
20. Do you anticipate any challenges to your organisation/business from world heritage status designation?
21. Do you use Welsh in your business/organisation? How and why?
22. What are the challenges in providing services through the Welsh language?
23. Are there examples of good practice in providing services through Welsh?
24. What are your needs as a business/organisation in relation to the Welsh language?

## YOUR OPINION

25. In what ways does tourism influence the community and the Welsh language in particular?
26. Are the tourism industry and local businesses taking advantage of opportunities to use Welsh?
27. Do you foresee anything changing with the designation of world heritage status? (Prompt: from an economic point of view; the community; the Welsh language)
28. What future do you envision for Welsh within your community?

## YOUR IDEAS

29. What is your vision for Bethesda?
30. In what ways could more extensive use of Welsh be encouraged by the tourism industry and local businesses?

**Do you have any other comments?**

**THANK YOU AND CLOSE**

## ATODLEN GYFWELD: AELODAU'R GYMUNED (GRŴP FFOCWS)

### AMCANION:

- Casglu barn rhanddeiliaid am beth yw'r cyswllt rhwng yr economi ymweld/twristiaeth a'r Gymraeg.
- Casglu awgrymiadau rhanddeiliaid o'r cyfleoedd sy'n codi o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wrth ystyried y Gymraeg.
- Casglu awgrymiadau rhanddeiliaid o'r heriau sy'n codi o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wrth ystyried y Gymraeg.
- Casglu barn rhanddeiliaid am ba gefnogaeth neu ysgogiad sydd ei angen ar fusnesau twristiaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r Gymraeg.

### CYFLWYNIAD

- Cydlynnydd i gyflwyno ei hun
- Diolch am gytuno i gyfrannu tuag at y gwaith ymchwil – bydd y sesiwn yn para oddeutu awr
- Mae croeso i chi gyfrannu'n Gymraeg neu Saesneg (ymchwilydd i gyfieithu'n anffurfiol)
- Trefniadau tŷ (ar-lein): Diffodd ffonau symudol, diffodd meicroffon pan nad ydych yn siarad, croeso i chi ddefnyddio'r chat i ysgrifennu sylwadau (annog cyfranogwyr i wneud hyn – data defnyddiol)
- Trefniadau tŷ (wyneb yn wyneb): Iarwm dân, toiledau, ffonau symudol
- Sôn yn fras am yr ymchwil – pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Pwysleisio pwysigrwydd clywed gan bobl fel chi
- Cadw nodiadau/ recordio (Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi? Mae recordio ar gyfer trawsgrifio yn unig.)
- Rheolau Grŵp Ffocws – cyfrinachedd, natur anhysbys, chwarae teg i bawb
- Cadarnhau cyfrinachedd – ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r cyfweiliadau yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion y prosiect hwn yn unig ac yn cael ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd a'r cyllidwyr ar ffurf adroddiad.
- A oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

### EICH CYMUNED CHI

31. Disgrifiwch natur ieithyddol eich cymuned chi (Bethesda).
32. Beth yw natur yr diwydiant ymweld/twristiaeth yn yr ardal yma?

### EICH BARN CHI

33. Ym mha ffyrdd mae twristiaeth yn dylanwadu ar y gymuned ac ar y Gymraeg yn benodol?
34. Pa argraff ydych chi'n meddwl mae ymwelwyr yn ei gael o'r Gymraeg?
35. Ydy'r diwydiant twristiaeth a busnesau lleol yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
36. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw beth yn newid yn sgil derbyn statws treftadaeth byd? (Sbardun: o safbwynt yr economi; y gymuned; y Gymraeg)
37. Sut ddyfodol ydych chi'n rhagweld i'r Gymraeg o fewn eich cymuned chi? Pam?

## EICH SYNIADAU CHI

38. Beth yw eich gweledigaeth chi ar gyfer Bethesda?
39. Ym mha ffyrdd gellid annog defnydd mwy helaeth o'r Gymraeg gan y diwydiant twristiaeth a busnesau lleol?
40. Pa gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r statws treftadaeth byd a sut y gellid manteisio arnynt?
41. Pa risgiau sy'n gysylltiedig â'r statws treftadaeth byd a sut y gellid lliniaru yn eu herbyn?
42. Beth a olygir wrth perchnogaeth leol a sut mae ei sicrhau? Pwy sydd angen bod ynghlwm?

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

## DIOLCHIADAU A CHLOI

## INTERVIEW SCHEDULE: COMMUNITY MEMBERS (FOCUS GROUP)

### OBJECTIVES:

- Gather stakeholder views on what the link is between the visitor/tourism economy and the Welsh language.
- Gather stakeholder suggestions of the opportunities arising from The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site designation when considering the Welsh language.
- Gather stakeholder suggestions of the challenges posed The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site designation when considering the Welsh language.
- Gather stakeholder views on what support or encouragement tourism businesses need to make the best use of Welsh.

### PRESENTATION

- Coordinator to introduce themselves
- Thank you for agreeing to contribute towards the research – the session will last around an hour
- Please feel free to contribute in English or Welsh (researcher to translate informally)
- House arrangements (online): Turn off mobile phones, turn off microphone when you're not speaking, feel free to use the chat to write comments (encourage participants to do this – useful data)
- House arrangements (face to face): fire alarm, toilets, mobile phones
- Briefly mention the research – who, why, what (see invitation)
- Stress the importance of hearing from people like you
- Keeping notes/ recording (Is recording the session acceptable to you? Recording is for transcription only. )
- Focus Group Rules – confidentiality, anonymity, level playing field for all
- Confirm confidentiality – no one is named within this work
- The information gathered through the interviews will be used for the purposes of this project only and will be submitted to Gwynedd Council and the funders in the form of a report.
- Do you have any questions before we start?

### YOUR COMMUNITY

43. Describe the linguistic nature of your community (Bethesda).
44. What is the nature of the visitor/tourism industry in this area?



## YOUR OPINION

45. In what ways does tourism influence the community and the Welsh language in particular?
46. What impression do you think visitors get of the Welsh language?
47. Are the tourism industry and local businesses taking advantage of opportunities to use Welsh?
48. Do you foresee anything changing with the acceptance of world heritage status? (Prompt: from an economic point of view; the community; the Welsh language)
49. What future do you envision for Welsh within your community? Why?

## YOUR IDEAS

50. What is your vision for Bethesda?
51. In what ways could more extensive use of Welsh be encouraged by the tourism industry and local businesses?
52. What opportunities are associated with the world heritage status and how could they be taken advantage of?
53. What risks are associated with the world heritage status and how could they be mitigated against?
54. What is meant by local ownership and how do we secure it? Who needs to be involved?

**Do you have any other comments?**

**THANK YOU AND CLOSE**

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Cynog Prys, Bangor University

[c.prys@bangor.ac.uk](mailto:c.prys@bangor.ac.uk)

Dr Rhian Hodges, Bangor University

[r.s.hodges@bangor.ac.uk](mailto:r.s.hodges@bangor.ac.uk)

Ysgol Hanes, Y Gyfraith a'r Gwyddorau Cymdeithas

Prifysgol Bangor

Ffordd y Coleg

Bangor

Gwynedd

LL57 2DG

